# EVANS, DAVID (1842 - 1914), gweinidog gyda'r Annibynwyr

**Enw:** David Evans
**Dyddiad geni:** 1842
**Dyddiad marw:** 1914
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Annibynwyr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** John Dyfnallt Owen

Ganwyd 15 Ionawr 1842 yn Penybontfawr, Sir Drefaldwyn. Bu'n gweithio yn ffatri ei dad ac yr oedd yn un o'r rhai y dylanwadwyd arnynt gan ddiwygiad crefyddol 1859. Dechreuodd bregethu yn Llanfyllin. Aeth i ysgol yn Llundain, lle yr oedd ei frawd Owen Evans (1829 - 1920), yn weinidog, i baratoi ar gyfer coleg. Bu yn athrofa'r Bala, 1860-3. Bu'n weinidog yn Rhosymedre, 1863-9, y Bermo a'r Cytiau, 1870-2, Cymer (Rhondda), 1872-6, Pentre (Rhondda), 1876-82, Heol Awst (Caerfyrddin), 1882-1907. Bu'n golygu *Y Dyddiadur Annibynnol* am rai blynyddoedd. Cyhoeddodd *Cofiant y G r Hynod*, *Cymeriadau Hynod*, a *Cymeriadau a Chymanfaoedd*. Yr oedd yn r cadarn yn yr Ysgrythyrau, ac yn bregethwr naturiol a hoffai draethu ar hanesion, digwyddiadau, a chymeriadau yr Hen Destament. Bu farw 22 Mawrth 1914.

Brawd arall iddo oedd Thomas Evans (1844 - 1922).

## Awdur

**Y Parchedig John Dyfnallt Owen**, (1873 - 1956)

## Ffynonellau


*Y Tri Hyn sef y Parchedigion Owen Evans, D.D., Llundain, David Evans, Caerfyrddin, Thomas Evans, Amlwch* (1931)

*Hanes Eglwys Heol Awst, Caerfyrddin* (1926), 78-84


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732815

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu